

Cyfreithusrwydd Gwleidyddol a'r Gyhoeddfa Gymreig: Dadansoddiad Habermasaidd

Dafydd Huw Rees

Prifysgol Caerdydd

Crynodeb: Dywedir yn aml fod sefydliadau gwleidyddol datganoledig Cymru'n dioddef o 'diffyg democrataidd', sydd yn gysylltiedig â 'diffyg cyfryngau'. Mae'r erthygl yma'n defnyddio athroniaeth wleidyddol Jürgen Habermas i ddadansoddi'r honiadau hyn. Dechreuir trwy drafod y broblem ganolog a chymhwyso damcaniaeth Habermas ynghylch cyfreithusrwydd ati (1), cyn troi at gysyniad allweddol y ddamcaniaeth, sef *y gyhoeddfa* (2). Mae rhan 3 yn dadlau bod diffyg *cyhoeddfa wleidyddol anffurfiol* yng Nghymru heddiw a bod hyn yn tanseilio cyfreithusrwydd y drefn wleidyddol ddatganoledig, gan gefnogi'r ddadl yma gyda data (3). Mae rhan olaf yr erthygl yn gosod achos Cymru mewn cyd-destun ehangach, ac yn agor trafodaeth ar atebion posib (4).

Allweddeiriau: cyfryngau, Cymru, cyhoeddfa, cyfreithusrwydd, datganoli, democratiaeth, Habermas.

Political Legitimation and the Welsh Public Sphere: a Habermasian Analysis

Summary: It is often said that Wales's devolved political institutions suffer from a 'democratic deficit', associated with a 'media deficit'. This article uses the political philosophy of Jürgen Habermas to interpret these claims. The article begins by discussing the central problem and applying Habermas's theory of legitimation to it (1), before turning to the theory's key concept, namely the *public sphere* (2). Part 3 argues that an *informal political public sphere* is lacking in Wales today and that this undermines the legitimacy of the devolved political settlement, supporting this argument with data (3). The final part of the article places the Welsh case in a broader context, and opens the discussion regarding possible solutions (4).

Keywords: media, Wales, public sphere, legitimation, devolution, democracy, Habermas.

1 Cyfreithusrwydd yn y Gymru Ddatganoledig

Dywedir yn aml fod sefydliadau gwleidyddol datganoledig Cymru yn dioddef o ddiffyg cyfreithusrwydd.¹ Serch hyn, anaml y mae awduron yn egluro beth yn union y maent yn ei olygu wrth ‘gyfreithusrwydd’. Mae Scully a Jones yn cynnig diffiniad bras o gyfreithusrwydd fel ‘cefnogaeth wasgaredig’ i sefydliad gwleidyddol, sydd yn ‘normadol’ ac yn ‘gyhoeddus’. Wrth ddweud bod sefydliad gwleidyddol yn gyfreithus, rydym yn dweud bod mwyafrif y cyhoedd yn cydnabod iawnder ei awdurdod, o ran eu hagweddau goddrychol tuag ato (Scully a Jones 2015: t. 517). Mae’r honiad bod sefydliadau gwleidyddol y Gymru gyfoes yn dioddef o ddiffyg cyfreithusrwydd, felly, yn gyfystyr â’r honiad bod y gefnogaeth wasgaredig, gyhoeddus, normadol yma heb fod yn bresennol. Cyfeirir yn aml at y niferoedd isel sydd yn pleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru (Scully et al. 2004: t. 524) fel tystiolaeth o’r broblem. Yn y cyd-destun yma, mae nifer o awduron wedi cyfeirio at ‘ddiffyg democrataidd’ neu ‘ddiffyg atebolrwydd’ (Dafydd a Badanjak 2020: tt. 22–3) ac wedi cysylltu’r broblem â gwendidau’r cyfryngau yng Nghymru, gan gyfeirio at ‘ddiffyg gwybodaeth’ neu ‘ddiffyg cyfryngau’ (Thomas et al. 2004; Barlow 2005: t. 202; Barlow et al. 2005: tt. 25–6). Y dybiaeth yn y dadleuon hyn yw nad yw trigolion Cymru’n wybodus am eu sefydliadau gwleidyddol datganoledig, a bod eu hanwybodaeth yn tansilio cyfreithusrwydd y sefydliadau mewn rhyw ffordd – diffyg gwybodaeth yn *arwain at* ddiffyg democrataidd.

Bwriad yr erthygl hon yw rhoi cig ar esgyrn y syniadau uchod. Byddaf yn defnyddio ‘damcaniaeth disgwrs y gyfraith a democratiaeth’ Jürgen Habermas er mwyn gwneud hynny. Dadleuaf fod damcaniaeth Habermas yn rhoi i ni ddarlun clir o sut y mae cyfreithusrwydd gwleidyddol yn gweithio, ac felly’n ein galluogi i ddod o hyd i’r elfennau gwallus yng nghyd-destun y Gymru gyfoes: diffyg *humanlywodraeth gyhoeddus*, oherwydd diffyg *cyhoeddffa wleidyddol anffurfiol*, yn atal y broses o gyfreithuso deddfau a pholisïau.

Rhaid cyflwyno’r ddamcaniaeth i ddechrau. Mae Habermas yn lleoli ei ddamcaniaeth hanner ffordd rhwng gwleidyddiaeth ryddfrydol a gweriniaethol. Yn hytrach na gorbwyslais y cyntaf ar fuddiannau’r unigolyn, a gorbwyslais yr ail ar rinweddau’r gymuned, mae’r ddamcaniaeth ddisgwrs yn pwysleisio’r amryw fathau o gyfathrebu mewn cymdeithas, sydd yn cyfrannu at ffurfio barn ac ewyllys gwleidyddol. Tybia Habermas fod trafodaeth deg, agored a rhesymol, sydd yn bwydo i mewn i’r broses wleidyddol, yn arwain at ganlyniadau dilys, ar ffurf deddfau cyfreithus (Habermas 1998: tt. 245–6, 248–9). Deellir sofraniaeth, nid fel rhywbeth sy’n perthyn i genedl, neu i wladwriaeth ar wahân i gymdeithas, ond yn hytrach fel rhywbeth sydd yn gorwedd yn ffrydiau ‘dioddrych’ trafodaeth gyhoeddus, yn y prosesau sydd

¹ Byddai efallai yn ymddangos yn fwy naturiol yn y Gymraeg i gyfeirio at ‘ddilysrwydd’ sefydliadau gwleidyddol. Ond yn yr erthygl yma byddaf yn defnyddio nifer o syniadau o waith Jürgen Habermas, a thermau a fathwyd yn yr Almaeneg yn wreiddiol. O ganlyniad, byddaf yn defnyddio ‘cyfreithus’ a ‘cyfreithusrwydd’ i gyfeirio at arwedd perthnasol strwythurau gwleidyddol a chyfreithiol, a’u hallbwn (h.y. deddfau, polisïau a phenderfyniadau). Mae’r thermau yma’n cyfieithu *legitim* a *legitimation*. Mae ‘dilysrwydd’ ar y llaw arall yn fwy addas er mwyn cyfieithu *Geltung*, fel a welir yn syniad Habermas o ‘honiad dilysrwydd’ (*Geltungsanspruch*) – syniad llawer mwy eang na chyfreithusrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yn unig.

yn ffurfio ewyllys a barn wleidyddol, sydd yn cynhyrchu ‘pŵer cyfathrebol’ (Habermas 1998: t. 251). Yn *Faktizität und Geltung*, mae Habermas yn canolbwyntio ar gyfreithusrwydd deddfau, ac yn datblygu model manwl o’r modd y mae deddfau yn cael eu cyfreithuso, wedi ei seilio ar ‘adluniad rhesymegol’ o arferion cyfundrefnau democrataidd go iawn (Habermas 1996: t. 82). Dyma’r model y byddaf yn ei gymhwyso at wleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru.

Beth sydd yn gwneud deddf yn gyfreithus, felly? Yn ôl Habermas, er mwyn i’w deddfau fod yn gyfreithus, rhaid i’r system wleidyddol sicrhau dwy elfen, *humanlywodraeth breifat* a *humanlywodraeth gyhoeddus*. Mae’r ddau fath o humanlywodraeth yn ‘gyd-wreiddiol’ – nid oes gan y naill flaenoriaeth dros y llall. Os ydynt yn mwynhau’r ddau fath o humanlywodraeth, gall dinasyddion eu hystyried eu hunain fel ‘*awduron a derbynyddion y gyfraith*’ ar yr un pryd, ac ystyried y deddfau y maent yn byw odanynt fel rhai cyfreithus (Habermas, 1996: 449). Byddaf yn trafod yr elfennau hyn yn eu tro.

Humanlywodraeth *breifat* yw’r elfen sydd wedi dwyn sylw athronwyr gwleidyddol rhyddfrydol, sydd yn gyfystyr â syniad Benjamin Constant o ‘ryddfreniau’r byd modern’, neu syniad Isaiah Berlin o ‘ryddid negatif’. O’r safbwynt hwn, mae gan y dinesydd humanlywodraeth os oes ganddo restr eang o hawliau unigol er mwyn diogelu ei fuddiannau a’i amddiffyn rhag ymyrraeth allanol. I Habermas, sicrheir humanlywodraeth breifat os yw dinasyddion yn caniatáu i’w gilydd bum set o hawliau sylfaenol:

1. Hawliau sylfaenol sydd yn dilyn o ddatblygiad gwleidyddol annibynnol *yr hawl i’r mesur ehangaf posib o ryddidau unigol cyfartal*.
2. Hawliau sylfaenol sydd yn dilyn o ddatblygiad gwleidyddol annibynnol *statws aelod* mewn cymdeithas wirfoddol o gyd-gymdeithaswyr o dan y gyfraith.
3. Hawliau sylfaenol sydd yn dilyn yn uniongyrchol o *gyfreithiadwyedd* hawliau ac o ddatblygiad gwleidyddol annibynnol *amddiffyniadau cyfreithiol* unigol.
4. Hawliau sylfaenol i gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan ym mhrosesau ffurfiant ewyllys a barn lle mae dinasyddion yn defnyddio eu *humanlywodraeth wleidyddol*, ac yn cynhyrchu deddfau cyfreithus.
5. Hawliau sylfaenol i ddarpariaeth amodau byw sydd wedi eu diogelu’n gymdeithasol, technolegol ac ecolegol, i’r graddau bod amgylchiadau presennol yn gwneud hyn yn angenrheidiol er mwyn i ddinasyddion gael cyfleoedd cyfartal i weithredu hawliau (1) i (4). (Habermas 1996: tt. 122–3)

Mae’r ‘system hawliau’ yma’n haniaethol dros ben, ac yn datblygu mewn gwahanol ffyrdd o fewn gwahanol gyfansoddiadau rhyddfrydol. Ei bwriad yw amddiffyn buddiannau a statws yr unigolyn, a’i allu i gymryd rhan yn y broses wleidyddol – i weithredu ei humanlywodraeth breifat. Deddf gyfreithus yw deddf sy’n sicrhau’r system hawliau; deddf anghyfreithus yw un sy’n troseddu yn erbyn y system hawliau.

Hunanlywodraeth *gyhoeddus* yw blaenoriaeth athronwyr gwleidyddol gweriniaethol, sy'n gyfystyr â syniad Constant o 'ryddfreniau'r henfyd' neu syniad Berlin o 'ryddid positif'. O'r safbwynt yma, mae gan y dinesydd hunanlywodraeth os gall gymryd rhan lawn ym mywyd gwleidyddol ei gymuned; hynny yw, os gall lunio'r deddfau a'r sefydliadau y mae'n byw odanynt. Mae Habermas yn defnyddio *egwyddor democratiaeth* i grynhoi'r syniad yma, ac fel maen prawf cyfreithusrwydd deddfau:

Dim ond y deddfau hynny sydd yn medru cwrdd â chymeradwyaeth pob dinesydd mewn proses drafodol o ddeddfu, sydd ei hun wedi ei chyfansoddi'n gyfreithlon, a all honni eu bod yn gyfreithus. (Habermas 1996: t. 110)

Hynny yw, er mwyn i ni gael hunanlywodraeth gyhoeddus, rhaid bod y broses o ddeddfu'n agored i ddylanwad trafodaeth gyhoeddus, a rhaid bod gan ddinasyddion y cyfle i ystyried, trafod a chymeradwyo (neu beidio) deddfau eu gwlad. Deddfau cyfreithus, felly, yw deddfau sydd yn cwrdd â'r amod yma; deddfau anghyfreithus yw rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Wrth gwrs, mae angen diffinio'n fwy eglur beth y mae Habermas yn ei olygu wrth 'broses drafodol o ddeddfu', fel y gwelwn maes o law.

Beth, felly, sydd gan y ddamcaniaeth yma i'w ddweud am 'ddiffyg democrataidd' honedig Cymru? Os yw hi'n wir fod deddfau'r llywodraeth ddatganoledig yn dioddef o ddiffyg cyfreithusrwydd, pa elfen o fodel Habermas sydd ar fai? Gallwn osod hunanlywodraeth breifat o'r neilltu – perchir yr hawliau sylfaenol i'r un graddau yng Nghymru ag mewn unrhyw wlad ddatblygedig debyg. Os oes yna ddiffyg cyfreithusrwydd, felly, efallai fod y broblem yn ymwneud â hunanlywodraeth gyhoeddus. Yn sicr, mae egwyddor democratiaeth yn creu safon uchel iawn: mae'n debyg bod llawer o wledydd yn ddiffygiol yn hyn o beth, o ystyried yr holl ffactorau a allai atal y 'broses drafodol o ddeddfu' rhag digwydd. Ond yn achos Cymru, dadleuaf mai un ffactor sy'n bennaf gyfrifol am rwystro hunanlywodraeth gyhoeddus, sef *gwendid y gyhoeddfa*. Yn y cyswllt hwn, gall damcaniaeth Habermas daflu golau ar y syniad bod 'ddiffyg cyfryngau' yn arwain at 'ddiffyg democrataidd'.

2 Habermas a'r Gyhoeddfa

Er bod y cysyniad yn ymddangos yng ngwaith nifer o athronwyr gwleidyddol eraill (Gripsrud et al. 2010), ystyrir ysgrifau Jürgen Habermas fel y cyfraniad mwyaf allweddol tuag at ddiffinio a disgrifio'r gyhoeddfa (*Öffentlichkeit*). Cyflwynodd Habermas y cysyniad yn 1962 yn *Strukturwandel der Öffentlichkeit* (Habermas 1989), sydd yn olrhain datblygiad a dirywiad y 'gyhoeddfa fwrgeisaidd' rhwng yr ail ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gan ganolbwyntio ar wledydd Gorllewin Ewrop. Â ymlaen i ddisgrifio rôl ganolog y gyhoeddfa gyfoes mewn cyfundrefn ddemocrataidd ddilys yn *Faktizität und Geltung* ac mewn cyfres o ysgrifau eraill.

Diffinnir y gyhoeddfa fwrgeisaidd fel maes cymdeithasol ar wahân i'r wladwriaeth, yr economi a bywyd preifat y teulu, lle gall unigolion osod materion 'preifat' o'r neilltu, a chwedd a chyfathrebu â'i gilydd ynghylch materion 'cyhoeddus' o bwys (Habermas 1989: t.

30). Datblygodd am y tro cyntaf yn nhai coffi a *salons* yr ail ganrif ar bymtheg, wrth i dwf y wasg a thwf llythrennedd alluogi mwy a mwy o bobl i ddarllen a thrafod nofelau a thafleuni newyddion (Habermas 1989: tt. 20–2, 31–6, 49–50). Trwy wneud hyn, magodd y cyhoedd newydd y gallu i ddefnyddio rheswm yn gyhoeddus, i feirniadu syniadau a dadleuon. Mae Habermas yn disgrifio'r gyhoeddffa gynnar fel 'parth o unigolion preifat wedi ymgynnull i mewn i gorff cyhoeddus, sydd fel dinasyddion yn trosglwyddo anghenion cymdeithas fwrgeisaidd i'r wladwriaeth, yn ddelfrydol er mwyn cyfieithu awdurdod gwleidyddol i mewn i awdurdod "rhesymol" o fewn y gyhoeddffa' (Habermas 1974: t. 53). Â ymlaen i ddisgrifio dirywiad y gyhoeddffa fwrgeisaidd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, wrth i ddemocratiaeth dorfol a'r wladwriaeth les danseilio'r rhaniad rhwng y 'cyhoeddus' a'r 'preifat' a oedd yn sail iddi (Habermas 1989: tt. 127, 142, 208). Yn hytrach na'i bod yn lleoliad ar gyfer rheswm cyhoeddus, gyda'i bywyd annibynnol ei hun, trodd y gyhoeddffa'n offeryn yn nwylo mudiadau gwleidyddol, llywodraethau a chwmnïau, yn eu hymdrechion i lunio barn y cyhoedd ac ennill cefnogaeth (Habermas 1989: tt. 176, 263).


Bwriad Habermas yn *Strukturwandel der Öffentlichkeit* oedd disgrifio 'teip delfrydol' y gyhoeddffa fwrgeisaidd, wedi'i seilio ar dystiolaeth o Brydain, Ffrainc a'r Almaen yn ystod y ddeunawfed ganrif (Habermas 1992: tt. 422, 442). Cytunodd â nifer o'i feirniaid hwyrach fod ei ddamcaniaeth wreiddiol yn fylchog. Dadleua Nancy Fraser fod alltudio menywod, eu diarddel i faes 'preifat' y cartref a'r teulu, yn gyfansoddiadol i ffurfiant y gyhoeddffa fwrgeisaidd (Fraser 1992). Yn ôl Oskar Negt ac Alexander Kluge, rhaid oedd alltudio'r dosbarth gweithiol, a dynodi cwestiynau ynghylch amodau byw materol fel rhai 'preifat', er mwyn i'r gyhoeddffa fwrgeisaidd fodoli (Negt a Kluge 2016). Gellid sôn, hefyd, am gymeriad Gorllewinol, Ewropeaidd y stori y mae Habermas yn ei hadrodd (Dwivedi a V 2015). Mae Habermas yn cydnabod y beirniadaethau hyn, gan ddadlau bod egwyddorion ymhlyg y gyhoeddffa – bod yn agored i bawb, rhoi llwyfan i drafodaeth resymol a beirniadol, ac anelu at gytundeb di-drais – yn dal yn werthfawr, er eu bod yn eisiau yn y gyhoeddffa fwrgeisaidd hanesyddol (Habermas 1992: tt. 425–8). Mae'r gyhoeddffa gyfoes, 'ôl-fwrgeisaidd', yn dal i chwarae rhan allweddol yn ei ddamcaniaeth ddisgwrs o'r gyfraith a democratiaeth.

Erbyn heddiw, mae Habermas yn cydnabod nad *un* gyhoeddffa sydd o fewn gwlad, ond yn hytrach lu o 'is-gyhoeddffaoedd' lleol, wedi eu gwahaniaethu yn ôl daearyddiaeth, pwnc ac aelodaeth: cyhoeddffa ffeministaidd, cyhoeddffa leol rhanbarth neu dref, cyhoeddffa lleiafrif crefyddol penodol, ac yn y blaen, gyda ffiniau mandyllog sydd yn galluogi ffrydiau o gyfathrebu i lifo rhyngddynt. Y peth agosaf at 'brif' gyhoeddffa yw'r *gyhoeddffa wleidyddol*, sydd yn cynnwys 'yr holl amodau cyfathrebol sydd yn galluogi ffurfiant trafodol o farn ac ewyllys gan gyhoedd wedi'i gyfansoddi o ddinasyddion gwladwriaeth' (Habermas 1992: tt. 446–7). Yn yr un modd ag y mae'r holl is-gyhoeddffaoedd yn canolbwyntio ar ryw bwnc neu gymuned arbennig, mae'r gyhoeddffa wleidyddol yn canolbwyntio ar y *system wleidyddol*, un o'r ddwy system hollgynhwysol (yr economi yw'r llall) sydd yn llywio cymdeithas gan ddefnyddio 'pŵer gweinyddol' (Habermas 1996: tt. 39–40). Gellir gweld yr amryw is-gyhoeddffaoedd fel 'cynteddau' i'r gyhoeddffa wleidyddol (Habermas 1996: tt. 373–4). Yn ogystal, mae yna raniad o fewn y gyhoeddffa wleidyddol. Rhaid gwahaniaethu rhwng cyhoeddffa 'anffurfiol'

neu ‘wan’ trafodaeth wleidyddol llawr gwlad, a chyhoeddfa ‘ffurfiol’ neu ‘gref’ trafodaethau’r Senedd, y wladwriaeth a’r llysoedd (Habermas 1996: tt. 307–8). Byddai cyfathrebu cyhoeddus beunyddiol, ar gyfryngau cymdeithasol neu dorfol, yn enghraifft o’r gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol, tra bo datganiadau Aelodau Seneddol a phenderfyniadau barnwyr yn enghreifftiau o’r gyhoeddfa wleidyddol ffurfiol. Mae ffigur 1 yn darlunio hyn:

Ffigur 1.

Y Gyhoeddfa Wleidyddol



Mae Habermas yn disgrifio’r gyhoeddfa wleidyddol gyfoes fel arena ar wahân i is-systemau cymdeithas, wedi’i hymgnawdoli yn y rhwydweithiau cyfathrebu sy’n rhedeg trwy’r cyfryngau torfol (ac, erbyn heddiw, y cyfryngau cymdeithasol). Ei rôl yw canfod, adnabod a dehongli problemau sydd yn effeithio ar y gymdeithas gyfan, problemau y gall y system wleidyddol fynd ymlaen i’w datrys (Habermas 1996: t. 359, 2009b: t. 143). O fewn y gyhoeddfa ceir ffrydiau o farnau cyhoeddedig, wedi’u cyfrannu gan amryw o actorion, sy’n cael eu dewis a’u

darlledu gan y cyfryngau. Ymysg yr actorion yma ceir gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol, lobïwyr a charfanau pwyso, arbenigwyr, grwpiau o'r gymdeithas ddinesig, 'anturwyr moesol', a deallusion (Habermas 1998: t. 250; 2009b: t. 161).² Gall y gyhoeddfa wleidyddol weithredu fel 'seinfwrdd' ar un llaw, er mwyn tynnu sylw at broblemau cymdeithasol, ac fel 'gwely hidlo' ar y llall, er mwyn dewis a dethol cyfraniadau i'r drafodaeth gyhoeddus amdanynt sydd yn berthnasol, yn wybodus, ac yn cynrychioli buddiannau cyffredinol. Dylai'r gyhoeddfa wleidyddol ddarlledu'r cyfraniadau yma i'r gynulleidfa o ddinasyddion, a gosod y problemau ac atebion posib ar agenda cyrff llywodraethol (Habermas 2009b: t. 143).

Prif gyfraniad y gyhoeddfa wleidyddol, felly, yw meithrin a llwyfannu barn gyhoeddus ac ewyllys gwleidyddol. Nid rhywbeth sydd yn bodoli eisoes yw barn y cyhoedd, nid lluoswm barn breifat pob unigolyn, ond yn hytrach rhywbeth sydd yn ymffurfio *yn* y gyhoeddfa, *trwy* drafodaeth, sydd yn trawsffurfio safbwyntiau a dymuniadau unigolion (Habermas 1996: t. 362). Trwy effaith 'ganolgyrchol' trafodaeth resymol a beirniadol, mae'n bosib ffurfio un 'farn gyhoeddus' ar bwnc, sef y farn flaenllaw ymysg nifer o safbwyntiau sydd yn troelli yn y gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol. Mae'r farn flaenllaw yma'n ddylanwadol mewn dau gyfeiriad: 'i fyny' tuag at y system wleidyddol ac 'i lawr' tuag at ei tharddiad gwreiddiol, y cyhoedd mawr. Yna, gall y cyhoedd ac aelodau'r system wleidyddol benderfynu eto, a mabwysiadu safbwynt 'ie', 'na' neu niwtral ar y farn gyhoeddus flaenllaw. Trwy adborth o'r fath, mae'r farn gyhoeddus yn ei haddysgu ei hun. Dylai cyhoeddfa wleidyddol iach ffurfio'r hyn y mae Habermas yn ei alw'n 'farnau cyhoeddus myfyriol ac ystyriol', sydd yn bwydo i mewn i'r system wleidyddol ac yn cynnig canllaw i wleidyddion wrth lywodraethu (Habermas 2009b: tt. 164–5).

Ni all y gyhoeddfa ei hun *reoli* – dyna rôl y system wleidyddol – dim ond *dylanwadu*, a thrwy hynny gyfreithuso allbwn y system wleidyddol. Democratiaeth drafodol yw nod damcaniaeth Habermas, nid democratiaeth uniongyrchol ar ffurf syniadaeth y Marx ifanc (Habermas 1992: tt. 431–2). Mae dylanwad cyhoeddus yn troi'n 'bŵer cyfathrebol' dim ond ar ôl iddo lifo i mewn i'r system wleidyddol. Yr hyn sy'n llifo i fyny o'r gyhoeddfa anffurfiol yw barnau myfyriol, ystyriol, a'r hyn sy'n llifo i lawr o'r gyhoeddfa ffurfiol yw deddfau, penderfyniadau cyfreithiol a pholisïau. 'Nid dylanwad *per se*, ond dylanwad wedi'i drawsffurfio yn bŵer cyfathrebol sydd yn cyfreithuso penderfyniadau' (Habermas 1996: t. 371). Mae cymeriad pŵer gweinyddol yn newid os ydyw wedi ei asio â phroses ddemocrataidd o ffurfiant ewyllys a barn. Y rhyngweithiad rhwng y cyhoeddfaedd gwleidyddol ffurfiol ac anffurfiol sydd yn allweddol, felly, er mwyn asio pŵer cyfathrebol cymdeithas â phŵer gweinyddol y system wleidyddol.

Dyma'r 'broses drafodol o ddeddfu' y mae Habermas yn cyfeirio ati gyda'i egwyddor democratiaeth, sydd yn gwireddu humanlywodraeth gyhoeddus ac yn caniatáu i ddinasyddion

² Yn y pen draw mae'r actorion yma'n cynrychioli'r *bywydfyd* (*Lebenswelt*), term y mae Habermas yn ei fenthyg oddi wrth ffenomenoleg Husserl, sef y parth cymdeithasol sydd wedi'i strwythuro gan reswm cyfathrebol, mewn cyferbyniad â'r rheswm offerynnol sydd yn strwythuro'r ddwy brif system – y wladwriaeth a'r economi. Gan nad yw'r cysyniadau yma o ontoleg gymdeithasol Habermas yn berthnasol i bwnc yr erthygl, byddaf yn eu gosod o'r neilltu.

eu hystyried eu hunain fel ‘awduron a derbynyddion y gyfraith’. Os yw popeth yn gweithio’n iawn, mae’n bosib creu cylch o adborth buddiol rhwng cymdeithas ddinesig a’r system wleidyddol, wrth i’r gyhoeddfa wleidyddol

... gyfryngu rhwng trafodaethau sefydlog yn ymrysonfeydd y wladwriaeth ar un llaw, a sgysiau ysbeidiol ac anffurfiol pleidleiswyr posib ar y llall. Mae’r gyhoeddfa’n chwarae ei rôl yng nghyfreithusiad democrataidd gweithredoedd y wladwriaeth trwy ddethol y materion sydd yn berthnasol i benderfyniad gwleidyddol, eu hailweithio i mewn i osodiadau o broblemau a’u cydgasglu i mewn i farnau cyhoeddus cystadleuol, trwy ddadleuon mwy neu lai addysgedig a rhesymedig. (Habermas 2009a: tt. 135–6)

Dan amodau ffafriol, mae’r adborth yma’n golygu bod penderfyniadau, deddfau a pholisïau’r llywodraeth yn rhai cyfreithus. Yn amlwg, felly, mae presenoldeb y gyhoeddfa wleidyddol, lleoliad trafodaeth gyhoeddus ar faterion sydd yn effeithio ar y gymdeithas gyfan, yn hanfodol. Rhaid cael cyhoeddfa wleidyddol effeithlon er mwyn gwireddu hunanlywodraeth gyhoeddus; a hunanlywodraeth gyhoeddus, ar y cyd â hunanlywodraeth breifat, sydd yn sicrhau cyfreithusrwydd gwleidyddol.

Awgrymais ynghynt mai gwendidau ynghylch hunanlywodraeth gyhoeddus sydd wrth wraidd problemau cyfreithusrwydd y Gymru ddatganoledig. Wedi ystyried y disgrifiad manwl o’r gyhoeddfa uchod, gallwn leoli’r gwendidau hyn. Beth yw cyflwr cyhoeddfa Cymru heddiw? Rhaid cydnabod bod mesur maint ac effeithlonrwydd unrhyw gyhoeddfa yn anodd dros ben. Categori dadansoddol yw ‘cyhoeddfa’, nid realiti gwrthrychol. Wedi dweud hyn, gallwn wneud nifer o honiadau rhesymol am y gyhoeddfa yng Nghymru.

I ddechrau, mae yna amryw o *is-gyhoeddfa*, pob un yn canolbwyntio ar ryw bwnc neu gymuned: is-gyhoeddfa cefnogwyr timau pêl-droed, pobl LDHT, grwpiau cadwraeth, ac yn y blaen. Ceir tystiolaeth o’r is-gyhoeddfa yma yn y cyfryngau cymdeithasol, mewn cylchlythyrau, hysbysebion, ac amryw ‘ffrydiau cyfathrebu’ lled gyhoeddus. Yn ail, ers datganoli mae Cymru wedi datblygu system wleidyddol o fath. Felly mae yna le i gyhoeddfa *wleidyddol* sydd yn cymryd y system yma fel ei chanolbwynt, ac angen am un, hefyd, i gyfreithuso ei gweithredoedd a’i hallbwn. Yn wir, gallwn ddweud bod gan Gymru gyhoeddfa wleidyddol *ffurfiol*. Ceir trafodaethau ar lawr y Senedd, adroddiadau gan bwyllgorau seneddol ac adrannau o’r gwasanaeth sifil, a manifestos pleidiau gwleidyddol. Mae’r holl ddeunydd yma’n gyhoeddus, ar gael i ddinasyddion ei ddarllen a’i drafod. Gellir beirniadu ei hygyrchedd, ond mae elfennau cyhoeddfa wleidyddol ffurfiol yn sicr yn bresennol.

Yr elfen goll, byddaf yn dadlau, yw’r *gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol*, y rhwydwaith o drafodaethau beunyddiol rhwng dinasyddion cyffredin, ynghylch materion o dan ddylanwad y system wleidyddol ddatganoledig. Ar ei waethaf, nid oes gan Gymru gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol. Ar ei orau, mae gennym un arbennig o wan ac aneffeithiol. Os yw’r honiad yma’n gywir, ni allai dinasyddion Cymru ganfod, trafod a dehongli problemau cyffredinol eu

cymdeithas; ni allent ffurfio barn gyhoeddus addysgedig, a chynhyrchu pŵer cyfathrebol i ffrwyno pŵer gweinyddol y system wleidyddol. Ni fyddai'r 'broses drafodol o ddeddfu' sydd yn cyfreithuso allbwn y system wleidyddol ddatganoledig yn digwydd, a byddai deddfau a pholisïau'r llywodraeth ddatganoledig yn anghyfreithus. Mewn termau Habermasaidd, byddai diffyg cyhoeddfa wleidyddol anffurfiol yn tanseilio hunanlywodraeth gyhoeddus, ac yn atal cyfreithusrwydd gwleidyddol. Dylid nodi bod y math yma o ddiffyg cyfreithusrwydd – un sydd yn deillio o *absenoldeb* cyhoeddfa, yn hytrach nag o fethiannau cyhoeddfa sydd yn bodoli – yn wahanol i rai o'r mathau y mae Habermas ac eraill wedi eu trafod (Habermas 1996: tt. 373–4; 1998: tt. 248–9; 2009b: tt. 156–8, 168–9, 174–7). Dyma broblem neilltuol Gymreig, fel y byddaf yn dadlau yn rhan 4. Am nawr, mae angen cynnig tystiolaeth empeiraidd o blaid yr honiad nad oes gan Gymru gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol.

3 Cyflwr y Gyhoeddfa yng Nghymru

O fewn model Habermas, fel y gwelsom, mae'r gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol yn canolbwyntio ar y system wleidyddol. Yma mae dinasyddion yn dysgu am broblemau cymdeithasol a'r atebion posib iddynt, yn lleisio eu barnau unigol, yn addysgu a datblygu'r barnau hyn trwy drafodaeth resymol er mwyn ffurfio barn gyhoeddus, yn cynhyrchu pŵer cyfathrebol, ac yn defnyddio'r pŵer cyfathrebol yma i 'raglennu' pŵer gweinyddol y system wleidyddol. Dyma'r broses o adborth sydd yn cyfreithuso deddfau, mynegiant o hunanlywodraeth gyhoeddus (Habermas 1998: tt. 250–2). Yn amlwg, er mwyn i hyn i gyd weithio, rhaid iddi fod yn bosib i ddinasyddion *glywed am* broblemau cymdeithasol cyffredinol, a'r atebion iddynt a gynigir gan system wleidyddol eu gwlad, yn y lle cyntaf. Nesaf, rhaid bod yna system er mwyn *cyhoeddi a rhannu* barnau unigol, a'u datblygu trwy drafodaeth, er mwyn ffurfio barn gyhoeddus. Fel y mae Habermas yn ei gydnabod, y cyfryngau – papurau newydd, radio, teledu, ac erbyn heddiw'r rhyngwrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol – sydd yn cyflawni llawer o'r swyddogaethau hyn (Habermas 2009a; 2023). Gallwn ystyried y cyfryngau torfol a chymdeithasol, ac yn bennaf ffynonellau newyddion, fel 'isadeiledd' y gyhoeddfa wleidyddol. Heb yr isadeiledd yma, fe fyddai'r gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol yn aneffeithiol – hynny yw, yn methu chwarae ei rôl o fewn model Habermas – neu hyd yn oed yn hollol absennol. Dadleuaf mai dyma sefyllfa Cymru heddiw. Byddaf yn canolbwyntio ar y dystiolaeth ynghylch yr honiad yma yng ngweddill rhan 3, ac yn trafod cwestiynau mwy eang yn rhan 4.

Mae nifer o sylwebyddion wedi nodi gwendid y cyfryngau yng Nghymru, o ran eu gallu i roi gwybod i ddinasyddion am faterion gwleidyddol datganoledig (Rees 2021: tt. 60–5; Komorowski 2021: tt. 5, 58). Dyma'r syniad o 'ddiffyg cyfryngau' y cyfeiriais ato yn rhan 1. O ystyried y cyfryngau fel isadeiledd y gyhoeddfa wleidyddol, gallwn rannu'r broblem yn dair elfen: (3.a) gwendid cyfryngau brodorol Cymreig, (3.b) dibyniaeth ar gyfryngau Prydeinig anghymwys, ac o ganlyniad, (3.c) anwybodaeth a diffyg dealltwriaeth ynghylch y system wleidyddol ddatganoledig.

3a Gwendid Cyfryngau Brodorol

Os ystyriwn yr ugain ffynhonnell fwyaf poblogaidd ymysg oedolion yng Nghymru ar gyfer newyddion *cyffredinol* (h.y. nid newyddion am Gymru), gwelwn nifer o batrymau amlwg. Mae'r teledu'n dal ar y blaen, er ei fod yn colli ei le blaenllaw i'r rhynggrwyd, tra bo papurau newydd a'r radio erbyn hyn yn ymylol (Ofcom 2022a: t. 61).³ Mae'r BBC mewn safle blaenllaw, os nad y safle goruchaf, gan gynnwys sianeli teledu, gorsafoedd radio a gwefannau; mae gan ITV bresenoldeb cryf hefyd (tabl 1).⁴

<i>Ffynhonnell</i>	<i>2019</i>	<i>2020</i>	<i>2021</i>	<i>2022</i>
BBC 1	68%	57%	64%	61%
ITV / ITV Cymru	45%	45%	49%	43%
Facebook	35%	38%	40%	42%
Sianel Sky News	26%	28%	29%	32%
Sianel BBC News	19%	14%	14%	26%
Instagram	6%	8%	20%	23%
Twitter	13%	11%	12%	22%
BBC Radio 2	14%	15%	19%	19%
Channel 4	12%	11%	16%	16%
WhatsApp	7%	7%	11%	16%
Gwefan / ap BBC	22%	18%	17%	16%
Daily Mail	15%	20%	18%	14%
BBC 2	13%	7%	10%	13%
Channel 5	7%	7%	12%	13%
TikTok	-	-	1%	12%
Google (chwiliadur)	10%	13%	9%	12%
BBC Radio 4	14%	8%	13%	11%
Western Mail / WalesOnline	-	-	-	10%
Google News	2%	5%	6%	7%
BBC Parliament	3%	3%	3%	7%

Tabl 1. Wedi ei seilio ar Ofcom 2022a: t. 65. Ffynonellau newyddion cyffredinol a ddefnyddir gan oedolion yng Nghymru sydd dros 16 oed.

³ Dylid nodi mai *llwyfannau* er mwyn cyrchu gwybodaeth yw llawer o'r gwefannau a'r rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol yn nhabl 1 – nid yw Facebook a Twitter/X yn cynhyrchu eu newyddion eu hunain, ond yn hytrach yn caniatáu i ddefnyddwyr rannu erthyglau, fideos a chlipiau sain a gyhoeddwyd gan ffynonellau go iawn, a chynnal trafodaeth amdanynt. Mae Habermas yn trafod y gwahaniaeth rhwng llwyfannau a ffynonellau yn ei ysgrifau diweddar ar y gyhoeddfa (Habermas 2023).

⁴ Pan ofynnwyd i bobl enwi'r ffynhonnell *unigol* fwyaf pwysig roeddent yn ei defnyddio i gyrchu newyddion cyffredinol, fe wnaeth 28% o oedolion dros 16 oed yng Nghymru enwi BBC 1 – ffigwr tipyn yn uwch na chenhedloedd eraill y DU (gyda Lloegr ar 21%, a Gogledd Iwerddon a'r Alban ar 18%). Roedd trigolion Cymru hefyd yn fwy tebygol o enwi Facebook (12%, o'i gymharu â 6–7%) a Sky News (13%, o'i gymharu â 4–7%) fel eu prif ffynhonnell, gyda'r ffynonellau yma'n tyfu o ran poblogrwydd yn ddiweddar (Ofcom 2022a: t. 67).

Yr hyn sy'n drawiadol am y rhestr yma yw'r prinder ffynonellau Cymreig. Mae pob ffynhonnell sydd yn adrodd ar faterion Cymreig yn gyson, sef chwech allan o'r ugain, wedi eu gosod mewn print du. Efallai fod y darlun yn edrych yn ffafriol i ddechrau, gan fod ymrwymadau statudol gan y BBC ac ITV, y ddwy ffynhonnell fwyaf poblogaidd, i gynhyrchu cynnwys Cymreig (Komorowski 2021: tt. 98–100). Ond wrth gwrs, nid yw'r ffaith bod 61% o boblogaeth Cymru'n defnyddio BBC 1 fel ffynhonnell newyddion *cyffredinol* yn golygu eu bod nhw'n dod ar draws newyddion *perthnasol i Gymru*, fel y bydd tabl 2 yn ei ddangos. Darlledwr gwladol y Deyrnas Unedig yw'r BBC, gyda phencadlys yn Llundain a changen a ddynodir fel 'BBC Cymru'. Gallwn ddadlau i ba raddau y mae BBC Cymru'n gweithredu fel darlledwr annibynnol, ond mae ITV yn sicr wedi cwtogi ei gynnyrch penodol Gymreig ers y 1990au (Komorowski 2021: t. 14). Nid yw gorsafoedd radio cenedlaethol Cymreig y BBC, Radio Wales a Radio Cymru, yn ymddangos ar y rhestr. Mae S4C hefyd yn absennol. Yr unig ffynhonnell ar y rhestr sydd wedi ei lleoli yng Nghymru ac yn canolbwyntio ar Gymru yw'r *Western Mail* – gan gynnwys y papur newydd ei hun, *Wales on Sunday*, a gwefan WalesOnline – sydd yn y 18fed safle, ar 10%.⁵

Mae'r ffigurau uchod yn cyfeirio at ffynonellau newyddion cyffredinol – hynny yw, newyddion am amryw o bynciau a materion byd-eang. Yr hyn sydd yn fwy perthnasol er mwyn deall cyflwr y gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol yw newyddion *am Gymru*. Dyma'r ffynonellau y byddem yn disgwyl iddynt roi gwybod i drigolion am broblemau cymdeithasol cyffredinol, ac atebion posib iddynt a gynnigir gan y system wleidyddol. Fel y dengys tabl 2, unwaith eto, mae gan y BBC bresenoldeb trwm, gyda sianel deledu BBC 1 ymhell ar y blaen, a gwefannau a gorsafoedd radio'r rhwydwaith yn llenwi tipyn o'r rhestr. ITV Cymru sydd yn ail, ac mae'r cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Facebook, bellach yn llwyfan pwysig er mwyn cyrchu newyddion am y wlad. Mewn cyferbyniad, mae papurau print lleol wedi eu lleoli yng Nghymru yn prysur ddiflannu, er bod rhai ohonynt, yn fwy na thebyg, yn cael eu hailgorffori fel 'gwefannau ac apiau newyddion o Gymru'. Y categori olaf yma, sylwer, sydd yn cynnwys yr unig ffynonellau newyddion 'brodorol', annibynnol ar y BBC, ar 6%. Ar wahân i'r BBC ac ITV, yn 2022 doedd dim un ffynhonnell *benodol Gymreig* (h.y. un sydd wedi ei lleoli yng Nghymru ac yn adrodd ar Gymru, beth bynnag fo'i pherchnogaeth) yn agos at 10%.

⁵ Hyd yn oed yn yr achos yma, Reach plc, cwmi sydd wedi ei leoli yn Canary Wharf yn Llundain, sydd yn berchen ar y ffynhonnell, yn ogystal â bod yn berchen ar y *Daily Post*, *South Wales Echo* a'r *South Wales Evening Post* (Rees 2021: t. 60).

<i>Ffynhonnell</i>	<i>2019</i>	<i>2020</i>	<i>2021</i>	<i>2022</i>
BBC 1	44%	51%	33%	46%
ITV / ITV Cymru	35%	33%	25%	28%
Facebook	25%	19%	18%	21%
Gwefan / ap BBC	5%	5%	17%	8%
Twitter	-	-	8%	6%
Unrhyw wefan / ap newyddion o Gymru	5%	4%	11%	6%
BBC Radio Wales / Cymru	-	8%	8%	5%
Sianel BBC News	-	-	-	5%
Papur newydd lleol	5%	6%	-	-
South Wales Echo	12%	5%	-	-
Western Mail	6%	4%	-	-

Tabl 2. Wedi ei seilio ar Ofcom 2019: t. 17; 2020: t. 29; 2021: t. 25; 2022b: t. 21. Ffynonellau newyddion am Gymru a ddefnyddir gan oedolion yng Nghymru sydd dros 16 oed.

Patrwm amlwg y ffigurau hyn yw gwendid ffynonellau newyddion ‘brodorol’ neu ‘benodol’ Gymreig, a dibyniaeth trigolion Cymru ar ffynonellau Prydeinig er mwyn cyrchu gwybodaeth am eu gwlad eu hunain, gyda’r cyfryngau cymdeithasol efallai’n llenwi bwlch o ran gwybodaeth leol. Mae llawer mwy o bobl yng Nghymru yn gwrando ar BBC Radio 2 nag ar Radio Wales a Radio Cymru (Ofcom 2022b: tt. 41–2), ac mae tipyn mwy yn darllen y *Daily Mail* a MailOnline na’r *Western Mail* a WalesOnline (Ofcom 2022a: t. 65). Mae newyddion teledu’r BBC ac ITV yn arbennig o bwysig, a thra bo gan y darlledwyr yma ymrwymiad statudol i ddarparu rhywfaint o newyddion a chynnwys diwylliannol Cymreig, nid dyna eu blaenoriaeth. Dydy hyn i gyd ddim yn golygu bod trigolion Cymru’n ddifater o ran newyddion am eu gwlad. Fel y mae adroddiad diweddar gan Ofcom yn ei nodi,

Mae gan y bobl sy’n byw yng Nghymru gryn ddiddordeb mewn newyddion am Gymru. Mae bron i hanner yr oedolion sy’n dilyn newyddion yn dweud bod ganddynt ‘diddordeb mawr’ mewn newyddion am Gymru (46%), ffigur sy’n codi i 83% ymysg y rheini sydd â diddordeb ‘mawr’ neu ‘ganolig’. Fel sy’n cael ei ddangos isod, oedolion yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a’r Alban sydd fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt ‘diddordeb mawr’ mewn newyddion am eu gwlad. (Ofcom 2022b: tt. 18–9)

Ond maent yn troi at ffynonellau Prydeinig i borthi’r diddordeb yma.

Dydy’r sefyllfa yma ddim yn ddelfrydol, efallai, ond dydy hi ddim o anghenraid yn tansilio cyfreithusrwydd. Petai ffynonellau newyddion Prydeinig yn talu sylw digonol

i faterion gwleidyddol Cymreig, ac yn galluogi trafodaeth resymol o broblemau sy'n wynebu'r wlad, efallai y byddai'n bosib i drigolion Cymru ffurfio barn gyhoeddus a chynhyrchu pŵer cyfathrebol er mwyn cyfreithuso pŵer gweinyddol y llywodraeth ddatganoledig. Yn anffodus, mae'r ffynonellau Prydeinig yn arbennig o wael yn y cyswllt hwn.

3b Dibyniaeth ar Gyfryngau Prydeinig

Mewn cyfres o astudiaethau ers 2008, mae Stephen Cushion ac eraill wedi archwilio'r ffordd y mae'r cyfryngau Prydeinig yn adrodd ar ac egluro gwleidyddiaeth ddatganoledig. Yn yr astudiaeth ddiweddaraf (Cushion a Thomas 2022), archwiliwyd newyddion rhwydwaith teledu (h.y. bwletinâu newyddion a gynhyrchwyd ac a ddarledwyd ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU) y BBC, ITV, Sky News, Channel 4 a Channel 5 rhwng Mehefin a Gorffennaf 2021, yn ogystal â phrif wefannau newyddion y tri cyntaf. Yn y cyfnod yma, gyda llywodraethau'r gwahanol wledydd yn mabwysiadu polisiau iechyd gwahanol mewn ymateb i'r pandemig, talwyd tipyn mwy o sylw i ddatganoli o'i gymharu ag astudiaethau blaenorol. Fel y mae'r awduron yn ei nodi, 'o'r 665 o eitemau'r BBC a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn 2015, roedd 10.1% yn cynnwys o leiaf un cyfeiriad penodol at bŵer datganoledig. O blith 152 eitem newyddion y BBC a oedd yn berthnasol i ddatganoli yn 2016, roedd 9.9% yn gyfeiriad penodol. Mae hyn yn cymharu â 38.7% o eitemau newyddion y BBC a oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol yn 2021' (Cushion a Thomas 2022: t. 29). Dylid nodi hefyd fod methodoleg Cushion a Thomas yn arbennig o hael. Maent yn defnyddio diffiniad eang iawn o 'gyfeirio at ddatganoli', sydd yn cynnwys datganiadau ymhlyg ac echblyg, cyfeiriadau daearyddol, gweledol ac ysgrifenedig, dyfyniadau o ffynonellau allanol, ac ati (Cushion a Thomas 2022: tt. 19–20, 28–9).

Serch hyn i gyd, nid yw'r canlyniadau'n gadarnhaol. Er bod ymwybyddiaeth o ddatganoli wedi gwella rhywfaint o ganlyniad i'r pandemig (Cushion a Thomas 2022: t. 4), daw'r awduron i'r casgliad bod diffygion difrifol o hyd o ran gweledigrwydd gwleidyddiaeth ddatganoledig yng nghyhoeddfa'r DU.

Yn ôl pob ffon fesur, mae'r BBC yn dipyn mwy effeithiol na'r darlledwyr masnachol, a gwefannau'r BBC yn dipyn mwy effeithiol na'i newyddion teledu, fel y dengys tabl 3 isod (Cushion a Thomas 2022: tt. 4–5, 28). Mae'n anffodus, felly, fod gwefannau'r BBC yn rhan ymylol o'r gyhoeddfa yng Nghymru, ac yn un sy'n crebachu (o 22% yn 2019 i 16% yn 2022), tra bo darlledwyr teledu masnachol fel Sky News yn prysur dyfu (o 26% yn 2019 i 32% yn 2022) (Ofcom 2022a: t. 65). Fodd bynnag, mae'r ffigurau perthnasol yn dal yn isel dros ben, gyda chyfanswm o 2.4% o eitemau newyddion yn cyfeirio at wleidyddiaeth ddatganoledig ar draws pob cyfrwng a ffynhonnell, ac 1.5% yn ychwanegol yn cyfeirio at wleidyddiaeth ddatganoledig a chanolog. Mae 23.7%, ar y llaw arall, yn cyfeirio at wleidyddiaeth San Steffan (Cushion a Thomas 2022: t. 11). Mae gwefan y BBC, ar 5%, yn sicr yn well na gwefannau Sky News ac ITV gyda 0.7%, ond ar y cyfan, lle ymylol sydd gan wleidyddiaeth ddatganoledig o fewn cyhoeddfa'r DU.

	<i>Teledu'r BBC</i>	<i>Teledu ITV</i>	<i>Teledu Sky</i>	<i>Teledu Ch. 4</i>	<i>Teledu Ch. 5</i>	<i>Gwefan y BBC</i>	<i>Gwefan ITV</i>	<i>Gwefan Sky</i>	<i>Cyfanswm</i>
<i>San Steffan</i>	14.2% (39)	22.4% (54)	23.0% (60)	23.9% (73)	20.9% (52)	33.6% (47)	27.1% (38)	37.1% (52)	23.7% (415)
<i>Datganoledig</i>	3.3% (9)	2.5% (6)	1.5% (4)	1.6% (5)	3.6% (9)	5.0% (7)	0.7% (1)	0.7% (1)	2.4% (42)
<i>Y ddau</i>	2.9% (8)	1.7% (4)	0.4% (1)	2.0% (6)	–	1.4% (2)	2.1% (3)	2.1% (3)	1.5% (27)
<i>Dim un o'r uchod</i>	79.6% (219)	73.4% (177)	75.1% (196)	72.5% (221)	75.5% (188)	60.0% (84)	70.0% (98)	60.0% (84)	72.4% (1267)
<i>Cyfanswm</i>	100% (275)	100% (241)	100% (261)	100% (305)	100% (249)	100% (140)	100% (140)	100% (140)	100% (1751)

Tabl 3. Cyfran yr eitemau newyddion teledu rhwydwaith ac ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar faterion gwleidyddol yn ymwneud â gwleidyddiaeth San Steffan, gwleidyddiaeth ddatganoledig, gwleidyddiaeth San Steffan a gwleidyddiaeth ddatganoledig, neu ddim un o'r rhain. Wedi ei seilio ar Cushion a Thomas 2022: t. 11.

O ran y sylw i genhedloedd datganoledig unigol, mae Cymru ar waelod y domen, fel y dengys tabl 4. Dim ond 1.7% o eitemau – 18 allan o 1043 – oedd yn cyfeirio at Gymru, er ei bod hi'n bosib bod rhai o'r 10.5% o eitemau oedd yn trafod mwy nag un o'r cenedloedd yn cyfeirio at y wlad hefyd. Fel y mae Cushion a Thomas yn ei nodi, 'roedd [cyfran] y newyddion yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn digwydd mewn sefydliadau yn San Steffan (12.8%) yn uwch na'r newyddion naill ai am Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar draws yr holl fwletinau a safleoedd ar-lein' (Cushion a Thomas 2022: t. 12). Mae'r patrwm cyffredinol yma, ac yn neilltuol statws arbennig o isel gwleidyddiaeth Gymreig, yn cyd-fynd ag astudiaethau blaenorol Cushion a'i gyd-weithwyr.⁶

	<i>Teledu'r BBC</i>	<i>Teledu ITV</i>	<i>Teledu Sky</i>	<i>Teledu Ch. 4</i>	<i>Teledu Ch. 5</i>	<i>Gwefan y BBC</i>	<i>Gwefan ITV</i>	<i>Gwefan Sky</i>	<i>Cyfanswm</i>
<i>Lloegr</i>	57.6% (91)	74.1% (106)	60.9% (81)	68.5% (113)	64.9% (109)	63.4% (64)	73.4% (58)	75.0% (72)	66.5% (694)
<i>San Steffan</i>	12.7% (20)	8.4% (12)	19.5% (26)	15.2% (25)	14.3% (24)	8.9% (9)	10.1% (8)	9.4% (9)	12.8% (132)
<i>Yr Alban</i>	3.2% (5)	5.6% (8)	7.5% (10)	4.2% (7)	9.5% (16)	6.9% (7)	–	–	5.1% (54)
<i>Gogledd Iwerddon</i>	6.3% (10)	3.5% (5)	2.3% (3)	3.6% (6)	1.2% (2)	5.9% (6)	1.3% (1)	3.1% (3)	3.5% (36)
<i>Cymru</i>	2.5% (4)	1.4% (2)	0.8% (1)	1.8% (3)	3.0% (5)	3.0% (3)	–	–	1.7% (18)
<i>Cyfuniad</i>	17.7% (28)	7.0% (10)	9.0% (12)	6.7% (11)	7.1% (12)	11.9% (12)	15.2% (12)	15.2% (12)	10.5% (109)
<i>Cyfanswm</i>	100% (158)	100% (143)	100% (133)	100% (165)	100% (168)	100% (101)	100% (79)	100% (96)	100% (1043)

Tabl 4. Cyfran yr eitemau newyddion ar-lein a theledu rhwydwaith am un neu fwy o'r pedair gwlad. Wedi ei seilio ar Cushion a Thomas 2022: t. 12.

⁶ Gweler Cushion, Lewis a Groves 2009: tt. 16–17; Cushion, Lewis a Sambrook 2016: tt. 4–5; Cushion, Lewis, Sambrook a Kilby 2015: tt. 14–15, 36–8.

Dylid cofio bod y ffigurau yma'n mesur cyfeiriadau bras at *fodolaeth datganoli*, nid trafodaeth fanwl o systemau gwleidyddol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Wrth drafod materion gwleidyddol datganoledig, nid oedd 89.7% o eitemau yn cynnwys unrhyw ffynhonnell gwleidyddol uniongyrchol (cyfweiliad neu ddyfyniad gan wleidydd) neu anuniongyrchol (cyfeiriad at eiriau gwleidydd) o'r llywodraethau datganoledig (Cushion a Thomas 2022: tt. 11, 28, 38–9). Mae'r cyfryngau Prydeinig yn tueddu i *adrodd ar* wleidyddiaeth ddatganoledig, o safbwynt Llundain a San Steffan, yn hytrach na *chynnal trafodaeth* arni, yn cynnwys lleisiau o'r cenhedloedd hynny. Er enghraifft, dangosodd astudiaeth 2016 fod gwleidyddion San Steffan yn ffurfio 71.8% o'r gwleidyddion a gyfwelwyd, neu'r ffynonellau a ddyfynnwyd, *mewn eitemau ar wleidyddiaeth ddatganoledig*. Ceidwadwyr – hynny yw, aelodau o blaid oedd yn llywodraethu Lloegr yn unig – oedd y mwyafrif mawr, tra bo gwleidyddion yr SNP a Llafur Cymru, y pleidiau mewn grym yn yr Alban a Chymru, yn ffurfio 5.8% yr un. Ar ITV a Channel 4, *dim ond* gwleidyddion Ceidwadol o San Steffan a gafodd y cyfle i leisio barn ar wleidyddiaeth ddatganoledig (Cushion et al. 2016: tt. 19–20).

Yn aml, mae ffynonellau Prydeinig yn cyfystyru 'Lloegr' â 'Phrydain', gan awgrymu'n ymhlyg fod gan y llywodraeth yn San Steffan awdurdod dros bob maes polisi ar draws y pedair gwlad. Cyfeirir, er enghraifft, at lywodraeth y DU fel '*y llywodraeth*', at weinidogion San Steffan fel '*y gweinidog*', ac yn y blaen (Cushion a Thomas 2022: t. 26), arfer arall sydd yn ymddangos yn yr astudiaethau blaenorol. Mewn dwy astudiaeth achos o 2015, mae Cushion et al. yn dangos bod ffynonellau'n aml yn aneglur wrth drafod meysydd polisi datganoledig fel addysg ac iechyd. Wrth drafod penderfyniad i agor ysgol ramadeg newydd yn Lloegr (Cushion et al. 2015: tt. 29–32) a streic gan feddygon iau yn GIG Lloegr (Cushion et al, 2015: tt. 32–5), methwyd ar y cyfan ag egluro bod y straeon yma'n berthnasol i Loegr yn unig. Er i wefannau a newyddion teledu'r BBC wneud rhywfaint o ymdrech, cyflawnwyd hyn ar y cyfan trwy gyfeiriadau ymhlyg, byr ('yr ysgol ramadeg gyntaf yn *Lloegr* ers...'). Ar yr un pryd, cyfeiriwyd mewn llawer o eitemau'r BBC at yr ysgol ramadeg newydd gyntaf '*ym Mhrydain*', at weinidog iechyd San Steffan fel '*y gweinidog iechyd*', at effaith streic y doctoriaid ar '*y GIG*', ac yn y blaen. Roedd gorsafoedd radio'r BBC yn fwy esgeulus byth, tra bo ffynonellau masnachol megis Sky News, Channel 4 ac ITV heb wneud unrhyw ymdrech i egluro'r sefyllfa, gan drin y DU gyfan fel uned o ran polisi iechyd ac addysg.

Mae dinasyddion Cymru, felly, yn ddibynnol ar ffynonellau newyddion Prydeinig sydd yn celu bodolaeth eu system gwleidyddol ddatganoledig. Prin y gallai ffynonellau o'r fath fod yn sail i gyhoeddfa gwleidyddol anffurfiol i Gymru, gyda'r gallu i chwarae ei phriod ran o fewn model Habermas. Ni all dinasyddion ddysgu am broblemau cymdeithasol cyffredinol eu gwlad, a'r atebion posib iddynt gan eu system gwleidyddol, os yw'r ffynonellau newyddion y maent yn eu defnyddio yn anwybyddu'r wlad a'r system gwleidyddol honno. Ni allant gynnal trafodaeth resymol a ffurfio barn gyhoeddus ynghylch y pethau hyn heb unrhyw le i lwyfannu'r drafodaeth ac i ddarlledu'r farn. Mae'r goblygiadau yn amlwg: heb gyhoeddfa gwleidyddol anffurfiol, nid oes modd gwireddu humanlywodraeth gyhoeddus yng Nghymru, ac felly gyfreithuso deddfau datganoledig.

3c Anwybodaeth Wleidyddol

Effaith amlwg gwendid ffynonellau newyddion Cymreig, dibyniaeth y wlad ar ffynonellau newyddion Prydeinig, ac esgeulustod y ffynonellau yma o ran adrodd ar wleidyddiaeth ddatganoledig, yw anwybodaeth trigolion Cymru ynghylch eu system wleidyddol. Mae amryw o sylwebyddion wedi nodi hyn (e.e. Jones 2018: tt. 50–5), gyda llawer ohonynt yn tynnu sylw at arolwg barn BBC/ICM o 2014 (tabl 5). Fel y dengys y ffigurau hyn, roedd cryn ddryswch ynghylch galluoedd system wleidyddol Cymru, gyda 43% o bobl o dan yr argraff bod llywodraeth y DU'n gyfrifol am iechyd, a 31% yn credu ei bod yn gyfrifol am addysg. Roedd 42%, ar y llaw arall, yn credu bod llywodraeth Cymru'n gyfrifol am yr heddlu, maes sydd heb ei ddatganoli.

	Llywodraeth y DU	Llywodraeth Cymru	Ddim yn gwybod
Iechyd	43%	48%	9%
Addysg	31%	61%	7%
Heddlu	50%	42%	8%

Tabl 5. Wedi ei seilio ar BBC/ICM (2014): tt. 27–32, cwestiynau 10–12.

Mae'r data yma'n atgyfnerthu canfyddiadau astudiaeth achos o 2013 gan Simon Gwyn Roberts, yn canolbwyntio ar rieni ac athrawon o Sir y Fflint (Roberts 2013: tt. 73–88). Roedd diffyg gwybodaeth difrifol o ran eu dealltwriaeth o newidiadau mewn polisi addysg ddatganoledig a sut y byddent yn effeithio ar ysgolion lleol, ac yn ogystal o faterion gwleidyddol mwy pellgyrhaeddol, fel refferendwm datganoli 2011:

The London-based UK press increasingly marginalizes devolved politics, while responses from the focus groups also suggest that the local media have yet to fully engage with the new reality, and its constructions of the new paradigm fail to properly inform local residents about the processes of devolution... The inevitable result is an uninformed and therefore apathetic and disengaged public. Only 29.45% of Flintshire voters turned out in the 2011 referendum on extending the law-making powers of the Welsh government. (t. 86)

	Llywodraeth y DU	Llywodraeth Cymru	Eraill	Ddim yn gwybod
Iechyd	15.1%	64.4%	2.4%	18.1%
Addysg	13.6%	58.6%	10.6%	17.2%
Heddlu	47.4%	29.3%	4.5%	18.8%
Polisi tramor	77.5%	1.9%	5.4%	15.2%
Trethu	78.1%	3.9%	2.8%	15.1%

Tabl 6. Wedi ei seilio ar Dafydd a Badanjak 2020: tt. 31–2.

Mae'n debyg bod ymwybyddiaeth o'r system wleidyddol Gymreig wedi gwella rhywfaint dros y blynyddoedd, gydag ymchwil Dafydd a Badanjak (tabl 6) yn dangos dealltwriaeth dipyn mwy cywir o'r prif feysydd polisi erbyn 2020. Ond, fel y noda'r awduron,

Despite the fairly positive general trend, a considerable proportion of the Welsh electorate did not identify that health and education are devolved competences. This is despite the fact that the Welsh Government spends almost half of its entire budget on health and that education is its third largest budgetary item. (Dafydd a Badanjak 2018: t. 31)

Adleisir y dybiaeth yma gan banel dinasyddion a gomisiynwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig yn 2022. Nododd y cyfranwyr ddiffyg hyder yn 'eu gwybodaeth eu hunain am wleidyddiaeth, yn enwedig ar lefel Cymru'. Yn arwyddocaol,

... roedd llawer o'r drafodaeth ynghylch y cysylltiad rhwng y cyfryngau newyddion a lefelau gormodol o hyder mewn gwleidyddiaeth ar lefel y DU, a gan mwyaf, dim ond ar ôl cyfnod dysgu'r prosiect yr ystyriwyd materion lleol ac ar lefel Cymru fel rhan o'r prosiect. O fewn y drafodaeth hon, cytunwyd yn eang nad oes digon o sylw yn cael ei roi i'r penderfyniadau a wneir yn y Senedd, a bod 'prinder' newyddion ar lefel leol. (Moore et al. 2022: tt. 15–6, 23)

Byddai'n bosib ychwanegu llawer mwy o enghreifftiau, pob un yn awgrymu bod anwybodaeth yn amharu ar yr ychydig drafodaeth wleidyddol gyhoeddus Gymreig sydd yn digwydd.

4 Cyfreithusrwydd a'r Gyhoeddfa Absennol

Rôl y gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol o fewn model Habermas yw i alluogi dinasyddion i ddiffinio problemau cymdeithasol, i fod yn seinfwrdd ar gyfer atebion posib gan y system wleidyddol, i feithrin barn gyhoeddus ac ewyllys gwleidyddol, ac wrth wneud hyn i gyfreithuso allbwn y system wleidyddol, trwy gyfryngu rhwng pŵer cyfathrebol a phŵer gweinyddol (Habermas 2009b: tt. 155–6). Awgrymais fod cyfryngau a ffynonellau newyddion yn cyfrif fel 'isadeiledd' y gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol – oni bai am y rhain, ni allai'r prosesau hyn ddigwydd. Dadleuais mai dyma'r sefyllfa yng Nghymru heddiw, y sylwedd y tu ôl i'r honiad bod 'ddiffyg cyfryngau' yn arwain at 'ddiffyg democrataidd'. Mae'r dystiolaeth uchod yn cefnogi'r awgrym hwn. Oherwydd prinder cyfryngau brodorol, gorddibyniaeth ar ffynonellau newyddion Prydeinig anaddas, ac anwybodaeth ynghylch y system wleidyddol ddatganoledig o ganlyniad, gallwn ddweud nad oes gan Gymru gyhoeddfa wleidyddol anffurfiol. Nid yw trigolion Cymru yn derbyn gwybodaeth eglur am broblemau cyffredinol eu gwlad, na chwaith am yr atebion posib y mae eu system wleidyddol ddatganoledig yn eu cynnig; does dim fforwm iddynt gynnal trafodaeth resymol, datblygu barn gyhoeddus,

a chynhyrchu pŵer cyfathrebol; does dim modd i ieuo'r pŵer cyfathrebol coll yma â phŵer gweinyddol y system wleidyddol Gymreig.

Yn nhermau Habermas, mae absenoldeb cyhoeddfa wleidyddol anffurfiol yn golygu nad oes gan drigolion Cymru hunanlywodraeth gyhoeddus, un o'r ddwy elfen hanfodol er mwyn cyfreithuso deddfau. Mae deddfau'r llywodraeth ddatganoledig, ar y cyfan, yn methu bodloni gofynion yr egwyddor ddemocrataidd, sydd yn crynhoi hunanlywodraeth gyhoeddus: ni allant 'gwrdd â chymeradwyaeth pob dinesydd mewn proses drafodol o ddeddfu, sydd ei hun wedi ei chyfansoddi'n gyfreithlon' (Habermas 1996: t. 110). Cynnyrch pŵer gweinyddol y system wleidyddol ydynt, yn gweithredu'n annibynnol ar bŵer cyfathrebol cymdeithas, ac felly'n gweithredu mewn modd anghyfreithus (Habermas 1996: t. 386). Oherwydd absenoldeb cyhoeddfa wleidyddol anffurfiol, ni all trigolion Cymru ddeall eu hunain fel *awduron* y deddfau y mae llywodraeth Cymru yn eu cynhyrchu, dim ond fel eu *derbynyddion*.

Mae'r broblem benodol yma – cyhoeddfa *absennol* – yn un sydd heb dderbyn llawer o ystyriaeth gan ddamcaniaethwyr. Mae Habermas ei hun wedi trafod nifer o ddiffygion mewn cyhoeddfoedd go iawn a'r cyfundrefnau democrataidd sydd yn dibynnu arnynt, megis pwysau arian a phŵer gwleidyddol, camwybodaeth, a diffyg trafodaeth resymol a beirniadol (Habermas 1996: tt. 373–4, 1998: tt. 248–9, 2009b: tt. 156–8, 168–9, 174–7). Ond ym mhob un o'r achosion hyn, mae Habermas yn dechrau gyda'r rhagdybiaeth *bod yna gyhoeddfa*, a bod y gyhoeddfa honno wedi ei llygru – bod yr isadeiledd yn ei le, ond yn cael ei gamdefnyddio (Habermas 1996: tt. 362–3). Mae problem benodol Cymru, sef absenoldeb cyhoeddfa wleidyddol, yn wahanol. Yr unig sefyllfa gymharol y mae Habermas yn ei hystyried yw diffyg cyhoeddfa Ewropeaidd. Dyma achos o system wleidyddol (yr Undeb Ewropeaidd) heb gyhoeddfa wleidyddol sydd yn cyfateb iddi (cyhoeddfa wleidyddol draws-Ewropeaidd). Yn yr achos hwn, mae Habermas yn bendant bod absenoldeb cyhoeddfa wleidyddol yn tanseilio cyfreithusrwydd system wleidyddol:

Oherwydd bod dim cyhoeddfa Ewropeaidd, mae dinasyddion yn ethol Senedd Ewrop ar sail y materion anghywir – hynny yw, rhai cenedlaethol. Ar yr un pryd, tanseilir cyfreithusrwydd llywodraethau'r aelod-wledydd gan eu bod nhw nawr dim ond yn medru 'gweithredu' y penderfyniadau llai-na-chyfreithus a wnaethpwyd ym Mrwsel. (Habermas 2009b: t. 182)

Dydy ffenomen cyhoeddfa absennol ddim felly'n unigryw i Gymru. Yn ogystal â'r Undeb Ewropeaidd, byddai'n bosib chwilio am enghreifftiau eraill, o gymdeithasau trefedigaethol neu ôl-drefedigaethol; cenhedloedd lled ymreolus megis yr Alban, Gogledd Iwerddon, Catalwnia a Gwlad y Basg; a gwledydd cymharol fach sydd yn cael eu heffeithio gan gyhoeddfoedd cymdogion mawr, megis Awstria a'r Almaen, a Chanada a'r Unol Daleithiau. Ym mhob achos, byddai gan y ffenomen wahanol achosion ac agweddau. Yn achos Cymru, gallai ymchwil pellach ddod o hyd i'r amryw ffactorau hanesyddol, gwleidyddol, economaidd a daearyddol sydd wedi arwain at y sefyllfa bresennol (Barlow 2005, Barlow et al. 2005, Jones 2018: tt. 50–5).

Ac, wrth gwrs, gallai ymchwil o'r fath arwain yn y pen draw at ddatrysiad i broblem cyhoeddfa absennol Cymru. Mae ateb Habermas i'r broblem Ewropeaidd – nid sefydlu cyhoeddfa Ewropeaidd newydd, ond annog cyhoeddfaedd cenedlaethol Ewrop i ddod yn fwy agored i'w gilydd, a 'chyfieithu' newyddion ar draws ffiniau (Habermas 2009b: tt. 182–3) – yn amherthnasol yma. Yn achos Cymru, *creu cyhoeddfa* yw'r union beth sydd angen ei wneud. Byddai datganoli pwerau dros ddarlledu yn gam cyntaf amlwg (Senedd Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 2021, *Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?*; Cymdeithas yr Iaith 2019: tt. 2–3, 7). Mae gwledydd eraill wedi mabwysiadu amryw o bolisiau er mwyn cryfhau ac ehangu eu cyhoeddfaedd (Komorowski 2021: tt. 13, 27, 58, 102; Sefydliad Materion Cymreig 2021; Moore et al. 2022: tt. 11–12, 20–1; Cymdeithas yr Iaith 2019: tt. 10–12, 13–19; Howells 2021: tt. 329–33). Gallai'r polisiau hyn fod yn fuddiol dros ben yn achos Cymru. Ar hyn o bryd, mae Cymru'n dioddef o ddiffyg cyfreithusrwydd oherwydd absenoldeb cyhoeddfa wleidyddol anffurfiol, ond dydy'r sefyllfa yma ddim yn anochel. Bwriad yr erthygl hon oedd disgrifio'r broblem. Y cam nesaf yw ei datrys.

Llyfryddiaeth

- Barlow, D. M. (2005), 'What's in the "Post"?' Mass Media as a "Site of Struggle", yn Jane Aaron a Chris Williams (gol.), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 193–214.
- Barlow, D. M., Mitchell, P., ac O'Malley, T. (2005), *The Media in Wales: Voices of a Small Nation* (Cardiff: University of Wales Press).
- BBC/ICM (2014), *Wales Poll May 2014*.
- Cushion, S., Lewis, J., a Groves, C. (2009), 'Prioritizing Handshaking over Policy-making: A Study of how the 2007 Devolved Election was Reported on BBC UK Network Coverage', *Cyfrwng*, 6, 7–32.
- Cushion, S., Lewis, J., Sambrook, R., a Kilby, A. (2015), *Four Nations Impartiality Review Follow-Up 2015: An Analysis of Reporting Devolution* (Cardiff University).
- Cushion, S., Lewis, J., a Sambrook, R. (2016), *2016 Nations Impartiality Review: A Snapshot Picture* (Cardiff University).
- Cushion, S., a Thomas, R. (2022), *Adrodd ar y gwledydd a materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith: dadansoddiad o ddarpariaeth teledu ac ar-lein* (Prifysgol Caerdydd / Prifysgol Abertawe).
- Cymdeithas yr Iaith (2019), *Darlledu yng Nghymru: Yr Achos dros Bwerau Darlledu a Chyfathrebu i Gymru*.
- Dafydd, E., a Badanjak, S. (2020), 'Electoral Accountability, Responsibility Attributions, and the Democratic Deficit in Devolved Wales', *Parliamentary Affairs*, 73, 22–45.
- Dwivedi, D., a V, Sanil. (2015), 'Introduction. From Outside The West: Whence? Whither?', yn D. Dwivedi a Sanil V (gol.), *The Public Sphere From Outside the West* (London: Bloomsbury), tt. 1–12.

- Fraser, N. (1992), 'Rethinking the Public Sphere: A Contribution to a Critique of Actually Existing Democracy', yn C. Calhoun (gol.), *Habermas and the Public Sphere* (Cambridge, Mass.: MIT Press), tt. 109–42.
- Gripsrud, J. (2010), *The Idea of the Public Sphere: A Reader* (Lanham, Md.: Lexington Books).
- Habermas, J. (1974), 'The Public Sphere: An Encyclopedia Article (1964)', *New German Critique*, 3, 49–55.
- Habermas, J. (1989), *The Structural Transformation of the Public Sphere: An Inquiry into a Category of Bourgeois Society* (Cambridge: Polity).
- Habermas, J. (1992), 'Further Reflections on the Public Sphere', yn C. Calhoun (gol.), *Habermas and the Public Sphere* (Cambridge, Mass.: MIT Press), tt. 421–61.
- Habermas, J. (1996), *Between Facts and Norms: Contributions to a Discourse Theory of Law and Democracy* (Cambridge: Polity).
- Habermas, J. (1998), 'Three Normative Models of Democracy', *The Inclusion of the Other: Studies in Political Theory* (Cambridge: Polity), tt. 239–52.
- Habermas, J. (2009a), 'Media, Markets and Consumers: The Quality Press as the Backbone of the Political Public Sphere', *Europe: The Faltering Project* (Cambridge: Polity), tt. 131–7.
- Habermas, J. (2009b), 'Political Communication in Media Society: Does Democracy Still have an Epistemic Dimension? The Impact of Normative Theory on Empirical Research', *Europe: The Faltering Project* (Cambridge: Polity), tt. 138–83.
- Habermas, J. (2023), *A New Structural Transformation of the Public Sphere and Deliberative Politics* (Cambridge: Polity).
- Howells, R. (2021), 'News Black Holes in Wales, and What We Can Do About Them', yn D. Evans, K. Smith a H. Williams (gol.), *The Welsh Way: Essays on Neoliberalism and Devolution* (Cardigan: Parthian Books), tt. 318–34.
- Jones, I. M. (2018), 'What is Needed to Strengthen National Media in Wales?', yn *Stateless Nations and Media Landscapes: Is a National Communications Agenda Possible?* (Coppieters Foundation / Ezkerraberri Fundazioa), tt. 50–4.
- Komorowski, M. (2021), *IWA Media Audit 2020* (Institute of Welsh Affairs / University of South Wales).
- Moore, D., Sargeant, P., a Smith, D. (2022), *Lleisiau'r Dinasyddion, Newyddion y Bobl: Sicrhau bod y Cyfryngau'n Gweithio dros Gymru* (Sefydliad Materion Cymreig / Y Brifysgol Agored).
- Negt, O., a Kluge, A. (2016), *Public Sphere and Experience: Toward an Analysis of the Bourgeois and Proletarian Public Sphere* (London: Verso).
- Ofcom (2022a), *News Consumption in the UK: 2022*.
- Ofcom (2022b), *Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2022*.
- Ofcom (2021), *Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2021*.
- Ofcom (2020), *Cyfryngau'r Genedl 2020: Adroddiad Cymru*.
- Ofcom (2019), *Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2019*.

- Rees, D. H. (2021), 'Drowned Out: Wales' Absent Public Sphere', yn D. Evans, K. Smith a H. Williams (gol.), *The Welsh Way: Essays on Neoliberalism and Devolution* (Cardigan: Parthian Books), tt. 59–73.
- Roberts, S. G. (2013), 'Clear Red Water? Devolved Education Policy and the Welsh News Media Audience', *Cyfrwng*, 10, 67–88.
- Scully, R., Jones, R. W., a Trystan, D. (2004), 'Turnout, Participation and Legitimacy in Post-Devolution Wales', *British Journal of Political Science*, 34, 519–37.
- Scully, R., a Jones, R. W. (2015), 'The Public Legitimacy of the National Assembly for Wales', *The Journal of Legislative Studies*, 21.4, 515–33.
- Sefydliad Materion Cymreig (2021), *Blaenoriaethau Cyfryngau'r IWA i'r Senedd Nesaf*.
- Senedd Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (2021), *Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?*
- Thomas, J., Cushion, S., a Jewell, J. (2004), 'Stirring up apathy? Political disengagement and the media in the 2003 Welsh Assembly elections', *Journal of Public Affairs*, 4.4, 355–63.